Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mawrth, 25 Mai 2021

14.00 - 16.15

Microsoft Teams

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Gareth Pierce Ann Beynon William Callaway Nia Elias Meri Huws Dr Anwen Jones Gwilym Dyfri Jones Dr Rhodri Llwyd Morgan Llinos Roberts Angharad Roberts Yr Athro Enlli Thomas
Sylwedyddion:	Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Branwen Thomas, Llywodraeth Cymru Iwan Evans, UCMC
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Ysgrifennydd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Dr Lowri Morgans, Rheolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu Nia Brown, Swyddog Llywodraethiant
Ymddiheuriadau:	Pedr ap Llwyd Yr Athro Jerry Hunter

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a materion rhagarweiniol	1.1 Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac yn arbennig i Ann Beynon a'r Athro Enlli Thomas fel aelodau llawn. 1.2 Estynnwyd cydymdeimlad at Ann Beynon yn dilyn ei phrofedigaeth diweddar. 1.3 Estynnwyd cydymdeimlad at deulu a chyfeillion Leigh Bracegirdle, Ysgrifennydd y Brifysgol ym Mhrifysgol Morgannwg hyd at 2008. 1.4 Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Nododd Dr Anwen Jones bod un o'i phlant yn astudio yng Ngholeg Sir Gâr. 2.3 Nododd William Callaway bod cysylltiad ganddo â Choleg Merthyr Tudful trwy Prifysgol De Cymru. 2.4 Nododd Dr Rhodri Llwyd Morgan ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Mudiad Meithrin.		
3. Adroddiad y Prif Weithredwr (Eitem 3)	3.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr yn darparu cyd-destun ar gyfer y drafodaeth yn y cyfarfod.		

	3.2 Nododd y Cadeirydd y byddai'r adroddiad a'r cyflwyniadau i ddilyn yn arwain at drafodaeth a phenderfyniad ynghylch yr amserlen rhwng nawr a chyfarfod nesaf y Bwrdd gan gofio bod sefydliadau Addysg Bellach yn aros i glywed a fu eu ceisiadau am gyfran o'r grant yn llwyddiannus. Nododd hefyd bod y Bwrdd yn atebol i Lywodraeth Cymru am y defnydd o'r grant o £810,000 ac y byddai angen i'r Coleg ddarparu cefnogaeth a chymorth pellach i'r sefydliadau.		
4. Cyflwyniad a diweddariad ar ddatblygiadau ym meysydd addysg bellach a phrentisiaethau	**Cyflwyniad gan Dr Dafydd Trystan a Dr Lowri Morgans** 4.1 Rhoddodd Dr Dafydd Trystan a Dr Lowri Morgans gyflwyniad ar ddatblygiadau ym meysydd addysg bellach a phrentisiaethau. 4.2 Amlinellwyd y cyd-destun i alluogi ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg a lansio'r Cynllun Gweithredu gan y Gweinidog Addysg yn Ionawr 2019. 4.3 Lluniwyd strategaeth uchelgeisiol a allai gydag adnoddau priodol gwneud cyfraniad at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. 4.4 Adroddwyd ar y canlynol: • cynllun gweithredu i osod fframwaith pyramid ar waith ar lefel leol, rhanbarthol a phynciol i dargedu pob dysgwr er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth, eu hyder a'u rhuglder • chwe piler i'r strategaeth: dysgwyr; staff; darpariaeth; adnoddau; cymwysterau; cyflogwyr – er bod eisoes weithgaredd perthnasol i bob un o'r chwech, roedd rhai heriau sylweddol, e.e. o ran cymwysterau		

	• y meysydd blaenoriaeth sef Iechyd a Gofal; Gofal Plant; Gwasanaethau Cyhoeddus; Adeiladwaith; Amaeth; Chwaraeon a Hamdden; Diwydiannau Creadigol a Busnes • ymagwedd dysgwyr i'r iaith a'r angen i godi hyder • bod 11% o athrawon addysg bellach a 9% o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith o gymharu â 30% o athrawon mewn ysgolion â'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg • bod paneli pwnc addysg bellach mewn tri maes blaenoriaeth eisoes yn cyfrannu at greu cymunedau staff ar draws y sector • yr adnoddau a gomisiynwyd ar wahân gan y Coleg, Llywodraeth Cymru a chyrff cymwysterau • bod canllawiau ar waith i ddatblygu prosesau i adnabod cymwysterau cyfrwng Cymraeg a bod cydweithio agos gyda Chymwysterau Cymru, CBAC, City & Guilds a Pearson • ystyriaeth benodol o ran hyfforddi a mentora staff yw'r angen am aseswyr, gan gynnwys ail aseswr mewnol ac aseswr allanol • y cydweithio gyda chyflogwyr drwy Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru, a Phartneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd • dosraniad y cyllid gyda dros hanner yn cael ei ddyfarnu fel grantiau i'r colegau, a'r gweddill rhwng hyfforddiant, adnoddau, hybu a hyrwyddo, prentisiaethau, a chanran isel ar staff y Coleg • nodwyd yr angen i'r camau nesaf gynnwys cadarnhau blaenoriaethau tymor byr penodol; adnabod blaenoriaethau tymor canolig; cydberthynas y cyllid grant a'r cyllid a ddarperir drwy'r "uplift" cyfrwng Cymraeg ar gyfer Addysg		

	Bellach; a chyfraniad y grantiau datblygu (sydd flwyddyn ar y tro) tuag at gynnal swyddi yn y tymor canolig *Ar y pwynt hwn ymunodd Gwilym Dyfri Jones*		
5. Trafodaeth	**Trafodaeth** 5.1 Rhoddwyd ystyriaeth ac ymateb i'r cyflwyniad gan aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn: • Mynegwyd gwerthfawrogiad o ystod y gwaith sydd wedi ei gyflawni eisoes, yn enwedig o ystyried yr adnoddau prin • Trafodwyd sut i ddenu dysgwyr a chodi eu hyder • Dulliau addysgu, gan gynnwys sgiliau trawsieithu • Gwahaniaethau mwyaf rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch • Holwyd ynghylch priodoldeb cynnig Ysgoloriaethau • Cyd-gysylltiad gwaith y Coleg gyda Strategaeth Cymraeg 2050 (gan gynnwys gwahaniaeth barn ynghylch y defnydd o'r term 'rhuglder') • Yr angen am dargedau ystyrlon a'r disgwyliadau ar gyrff eraill hefyd • Bod llythyr grant Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen i adnabod a thargedu dysgwyr sydd wedi astudio TGAU fel iaith gyntaf • Pwysigrwydd partneriaeth y Coleg gyda gweithleoedd yng nghyd-destun addysg gydol oes • Beth yw'r prif risgiau gyda'r agenda hwn? • Effaith grantiau i ariannu swyddi dysgu yn enwedig mewn Iechyd a Gofal • Angen darn sylweddol o waith gyda chyflogwyr er mwyn codi statws sgiliau iaith Gymraeg yn gyffredinol – hyn yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru;		

	gallai'r darn o waith gynnwys adnabod y dadleuon sy'n cymell cyflogwyr • Angen ystyriaeth llawn o'r fformiwla cyllido • Pwysigrwydd denu unigolion i weithio yn y maes • Capasiti'r Coleg i wneud y gwaith • Pe byddai arian dros ben, dylid bod yn ywmybodol o'r risg o'i ddyrannu yn rhy denau; hefyd adnabod a oes bylchau penodol, gan gynnwys mewn ardaloedd difrentiedig; a bod yn ymwybodol o'r her sylweddol o geisio penodi staff sy'n hyderus yn y Gymraeg, yn addysgwyr da ac yn brofiadol yn eu maes proffesiynol 5.2 Ymatebodd y swyddogion i'r sylwadau fel a ganlyn: • bod y dasg o ddenu dysgwyr yn wahanol yn dibynnu ar eu safle ar y pyramid ond bod pob dysgwr yn cael eu targedu ar y lefel ymwybyddiaeth a bod cefnogaeth ieithyddol ar wahanol ffurfiau • bod cyn lleied â saith dysgwr cyfrwng Cymraeg mewn rhai colegau a phwysigrwydd rhoi cefnogaeth a magu hyder; ac mai anogaeth yn hytrach na rhuglder yw'r nod • bod ymrwymiad i greu targedau yn y broses cynllunio a'r angen i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun Strategaeth Cymraeg 2050 • bod 11 grant datblygu peilot wedi'u dyrannu i gefnogi staff; ac o blith y rhain, dim ond un oedd wedi methu oherwydd diffyg awydd gan fyfyrwyr, ond roedd hefyd un maes (Amaeth) lle roedd diffyg cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn rhwystr • Nifer o ystyriaethau o ran cynnig Ysgoloriaethau – ai dysgwyr rhugl yn unig fyddai'n gymwys neu bawb sydd ag ymwybyddiaeth? Un posibilrwydd fyddai treialu drwy gynllun peilot		

	• bod trawsieithu yn anodd gan nad oes cymwysterau Cymraeg yn bodoli • heriau diwallu anghenion dwyieithrwydd a phrinder staff i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg • y bu prosiect peilot i ddatblygu fideos ar gyfer Adeiladwaith • bod contractwyr newydd ar gyfer darparu prentisiaethau o 1 Awst, 10 yn lle'r 19 blaenorol, a 6 ohonynt yn golegau • bod angen adeiladu cysylltiadau gyda chyflogwyr o fewn y sectorau blaenoriaeth (e.e. Gwasanaeth Iechyd a WLGA) a hefyd yn ehangach (CBI, FSB) 5.3 Rhagwelwyd y gellid dyfarnu'r rhan helaeth o'r gyllideb ychwanegol a dderbyniwyd yn 2021/22 ar gyfer grantiau datblygu yn y colegau. 5.4 Cytunwyd y gallai'r swyddogion argymell i'r Bwrdd yn y papur i'w gylchredeg erbyn cyfarfod mis Mehefin sut i wario gweddill y cyllid yn strategol lle y gwelai'r Coleg fylchau yn y ddarpariaeth. 5.5 Argymhellwyd bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth am gapasiti'r Coleg i weithredu'r strategaeth fel rhan o'r papur. 5.6 Cytunwyd y gallai'r Bwrdd dderbyn gwybodaeth pellach ar gamau angenrheidiol drwy ohebiaeth petai angen gwneud penderfyniadau ynghylch cyllido cyn cyfarfod Mehefin gan y byddai'n fanteisiol i'r colegau gael cadarnhad o geisiadau llwyddiannus mor gynnar ag sy'n bosibl o fewn y mis.		

6. Dyddiad y cyfarfod nesaf	6.1 Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf: • 30 Mehefin 2021: rhithiol 6.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfiethu ar y pryd.		